**Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg**

***Welsh Language Advisory Panel***

**11 Rhagfyr 2025 am 2yp**
**Cyfarfod Aml-Leoliad**

**COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU**

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Carys Jones (Cadeirydd) | CJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Sue Allen | SA | Annibynnol |
| Cyng. Andrew Teilo | AT | Plaid Cymru |
| Cyng. Meinir Jones | MJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Jean Lewis | JL | Plaid Cymru |
| Cyng. Edward Skinner | ES | Llafur |
| Cyng. Tina Higgins | TH | Llafur |
| **Swyddogion** | | |
| Gwyneth Ayres | GA | Rheolwr Polisi, Partneriaeth a Pherfformiad |
| Christopher Newcombe | ChN | Rheolwr Datblygu’r Gymraeg |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi a Phartneriaeth |
| Aled Eynon | AE | Cyfieithydd |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynghorydd Glynog Davies. | |
| 2. | **Diweddariad ARFOR**<br><br>Croesawyd Anwen Davies i’r cyfarfod, fel Rheolwr Rhaglen Arfor (o fewn Cyngor Gwynedd).<br><br>Esboniodd Anwen y cyd-destun o ran rhaglen Arfor, a’r waith pontio sydd ar droed wrth i gyfnod Arfor 2 ddod i ben.<br><br>Blaenoriaethau Strategol: Ffocws ar rolau cydlynu cyllido, gweithredu ymyriadau allweddol ar ieuenctid a mudo, a throsglwyddo gwersi a ddysgwyd i raglenni prif ffrwd<br><br>Monitro ac Ymgysylltu: Pwyslais ar fonitro hawliadau, rhannu arferion gorau, ac ymgysylltu strategol trwy glybiau rhwydwaith | |

| | | |
|---|---|---|
| | ARFOR 3 - Mentrau Llwyddiant Lleol: Mae ymgyrch Llwyddo'n Lleol dan arweiniad Menter Môn a Mentera yn cynnwys gweithgareddau marchnata, creu cynnwys, a mesur effaith a gynlluniwyd tan ddiwedd 2025<br><br>Strategaeth Farchnata: Mae Lafan yn arwain lansiad a chydweithrediad rhanddeiliaid gyda ffocws ar ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a chryfhau hunaniaeth brand yn 2025<br><br>Gwaith Economi ac Iaith: Mae Wavehill yn rheoli cynllunio prosiectau, mapio rhanddeiliaid, ymchwil gwerthuso, a datblygu cynllun gweithredu i gefnogi nodau economaidd ac iaith.<br><br>Nododd y Cyng. PHG adborth positif o ran cwmni lleol, sydd wedi gallu llwyddo aros yng Nghaerfyrddin yn dilyn derbyn cyllid drwy Arfor.<br><br>Cafwyd ymholiad gan y Cyng. SA os oedd rhai ardaloedd yn fwy llwyddiannus o ran y rhaglen. Esboniodd Anwen fod Llwyddo'n Lleol wedi ei sefydlu yng Ngwynedd a Môn cyn cyfnod Arfor, gyda Cheredigion a Sir Gâr yn ymuno yn hwyrach. Er hynny, mae Sir Gar wedi perfformio yn dda wrth ddenu cyllid. Mae rhaglen Llwyddo'n Lleol yn tueddu i ffocysu ar fusnesau bach ond mae yna fusnesau mwy wedi ennill drwy'r cynllun hefyd.<br><br>Gofynnodd y Cyng. JL a fyddai modd cael gwybodaeth am y busnesau / prosiectau sydd wedi derbyn nawdd oddi wrth Arfor, fel ein bod ni yn medru ffocysu ar werthuso a chefnogaeth? Nododd Anwen fod yna adroddiad blynyddol wedi ei greu a bydd modd rhannu copi i aelodau'r Panel.<br><br>Esboniodd Anwen fod amserlen yn parhau i fod yn her, ac mae angen cyllideb mwy hir dymor er mwyn edrych ar Economi a'r Iaith a gobeithio y bydd hyn yn dod drwodd yn glir yn dilyn gwaith gwerthuso Wavehill.<br><br>Mae'r elfen gyrfaol o'r rhaglen wedi bod yn hynod llwyddiannus ac wedi bod yn gyfleu euraidd i bobl ifanc i ennill sgiliau, i ddysgu mwy am fyd gwaith ac i adnabod meysydd a fyddai o ddiddordeb iddyn nhw yn y dyfodol. Cefnogwyd tua 40,000 o bobl ifanc ar draws y rhanbarth.<br><br>Cafwyd ymholiad gan y Cyng. MJ o ran cyhoeddusrwydd a chefnogaeth i fusnesau. Nodwyd fel rhan o ymgeisio bod angen i'r busnesau i weithio tuag at achrediad Comisiynydd y Gymraeg, y Cynnig Cymraeg. Mae llyfryn Naws am Le hefyd wedi ei gyhoeddi er mwyn hyrwyddo gwasanaethau yn lleol.<br><br>Esboniodd y Cyng. CJ ein bod ni wedi ystyried sut i gadw mewn cysylltiad gyda phobl ifanc, fel sir, a bod hynny yn plethu yn agos gyda Chlwb Arfor. Cadarnhaodd Anwen y bydd y cynllun yn ymchwilio beth sydd yn bosib o ran Clwb Arfor hyd at fis Mai, gan adeiladu ar waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Rhwydwaith Seren a'r rhwydweithiau sydd eisoes mewn lle. Nododd Anwen fod Cyngor Gwynedd wedi sefydlu rhwydwaith ar gyfer staff ifanc, er mwyn sicrhau fod y gweithlu ifanc yn cyfarfod â chyd-swyddogion ac yn ennill profiad.<br><br>Nododd Anwen, os y bydd Arfor 3, bydd angen edrych ar ddaearyddiaeth y rhaglen a phlethu mewn gydag argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Efallai na fydd y rhaglen yn ei hanfod yn parhau, ond bydd modd ffocysu ar Economi a'r Iaith fel rhan o raglenni ehangach. Byddai esblygiad i gynllun yn debyg i Raglen Twf yn fuddiol iawn ac yn sicrhau cynaladwyedd. Nodwyd fod buddsoddiad ariannol Cynllun Arfor yn fach o'i gymharu â'r Bargeinion Twf, ac mae'r costau gweinyddol wedi bod tipyn yn is. | |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**<br><br>Croesawyd Chris Newcombe, Rheolwr y Gymraeg, Adran Addysg a Hamdden i'r cyfarfod.<br><br>Amlinellodd Chris y rôl o ran arwain ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a nodwyd fod y momentwm wedi cynyddu tipyn dros y 7 mis diwethaf. Cadarnhawyd fod y Grwpiau Gyrru Deilliannau wedi'u sefydlu, gyda chylch gorchwyl pendant er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith. Nodwyd fod rôl ein partneriaid lleol ni yn allweddol wrth i ni symud ymlaen.<br><br>Penodwyd Menna Beaufort-Jones ar secondiad, deuddydd yr wythnos, o Gyngor Sir Ceredigion, er mwyn ychwanegu capasiti.<br><br>Amlinellodd Chris y deilliannau penodol:<br><br>**Deilliant 1:** Mwy o blant meithrin (3 oed) yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>**Deilliant 2:** Mwy o blant derbyn (5 oed0 yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae trafodaeth ar droed gydag ysgolion lleol o ran parhau gyda'r continwwm ieithyddol. Amlinellwyd y gwaith Cymraeg yn y Cartref gyda theuluoedd a chymunedau lleol a'r gefnogaeth i 5 o ysgolion sydd eisoes wedi trosi darpariaeth sylfaen e.e. Ysgol y Ddwylan. Mae yna 35 o deuluoedd wedi dechrau ar eu siwrnai o ran dysgu'r Gymraeg. Mae cyfle hefyd wedi bod i hyrwyddo<br><br>**Deilliant 3:** Dilyniant ieithyddol a datblygu y ddarpariaeth hwyr ddyfodiaid. Mae ail ganolfan wedi agor yn Ysgol Bro Dinefwr, sef Canolfan Brianne a bydd agoriad swyddogol ym mis Ionawr 2026. Mae'r tîm hefyd yn awyddus i gael darpariaeth fwy teg dros y sir gyfan, ac mae ymholiadau ar waith o ran ardal Caerfyrddin. Mae perthynas waith dda mewn lle gyda Chynghorau sy'n ffinio hefyd, er mwyn bod disgyblion o Sir Gâr yn medru mynychu canolfannau lleol.<br><br>**Deilliant 4:** O ran marchnata a hyrwyddo cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth.<br><br>**Deilliant 5:** O ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol. Mae un o'r swyddogion o fewn y tîm, bellach yn arwain ar y Siartr Cymraeg Campus ac mae cefnogaeth mewn lle ar gyfer cydlynwyr y Siartr o fewn ysgolion. Bydd cynhadledd i gydlynwyr ym mis Ionawr a bydd gwahoddiad i bartneriaid cymunedol i'r gynhadledd hon hefyd. Mae ysgol Maes y Gwendraeth ac Ysgol Heol Goffa wedi ennill gwobr Efydd y Siartr yn ddiweddar.<br><br>**Deilliant 6:** Anghenion Dysgu ychwanegol. Mae gwaith ar droed i edrych ar ein cynnig ni fel Cyngor i ddisgyblion a theuluoedd sydd angen cefnogaeth ADY. Bydd rhaglen o ddatblygu proffesiynol yn dilyn hyn.<br><br>**Deilliant 7:** Gallu gweithlu Addysg yn y Gymraeg. Mae Llinos Jones, Ymgynghorydd Addysg ar gael 0.2 er mwyn cynnig cefnogaeth. I ysgolion ceir perthynas waith bositif gyda'r Ganolfan Dysgu Genedlaethol a Rhagoriaith er mwyn uwch-sgilio ein staff a thargedu ysgolion sy'n newid cyfrwng Iaith. Cynhaliwyd awdit ieithyddol yn Ysgol Bro Dinefwr, er mwyn edrych ar y sgiliau sydd mewn lle a datblygu cyrsiau proffesiynol er mwyn cefnogi staff i uwch-sgilio. | |

| | | |
|---|---|---|
| | O ran y misoedd nesaf, bydd hynny ffocws ar gyfraddau trosglwyddo o flynyddoedd 6 i 7, Marchnata darpariaeth ac addysg Gymraeg, darpariaeth yn Ysgol y Strade ac edrych ar gapasiti y tîm Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd wrth symud ymlaen at y dyfodol.<br><br>Cafwyd ymholiad gan y Cyng. MH o ran monitro cynnydd ein disgyblion. Nodwyd bod y tîm yn adeiladu cynllun er mwyn tracio cyfathrebu a chynnydd. Mae'r tîm yn awyddus i sicrhau fod y disgyblion yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg wrth fynd drwy'r continwwm.<br><br>Cadarnhawyd fod y tîm yn gweithio yn agos gyda Chyngor Ceredigion er mwyn datblygu adnoddau trochi. Cydnabuwyd fod yn adnoddau ar gael mewn siroedd eraill a bod cyfle i deilwra ar gyfer cyd-destun Sir Gâr.<br><br>Cafwyd cwestiwn gan y Cyng. CJ o ran sut mae disgyblion yn cyrraedd y gwasanaeth trochi? Esboniodd Chris fod yna werthusiad o'r gwasanaeth wedi ei gynnal a bod yna gyflwyniad i benaethiaid wedi bod yn ddiweddar er mwyn esbonio y gefnogaeth sydd ar gael. Plant sydd yn newydd i addysg cyfrwng Cymraeg sydd yn cael blaenoriaeth, yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth. Rydym ni'n gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau sydd yn ein cyrraedd, ac os daw pwynt lle nad oes capasiti, bydd angen ystyried sut i flaenoriaethu. Gofynnwyd os oes modd adrodd nôl i Lywodraethwyr fel rhan o Adroddiad y Pennaeth?<br><br>Derbyniwyd sylw gan y Cynghorydd AT o ran datblygiad tai yn Llangadog a bod tua 80% o rieni sydd yn byw ar y safle wedi dewis danfon eu plant i Ysgol CP yn Llandeilo (o bosib i osgoi addysg cyfrwng Cymraeg). Nodwyd fod y tîm yn ymwybodol o heriau daearyddol penodol a bod angen rhoi cynllun hyrwyddo addysg Cymraeg ar waith er mwyn ymateb. Esboniwyd hefyd fod yna waith drwy sefydliad Claremont, sydd yn amlygu pwysigrwydd lleisiau lleol wrth hyrwyddo addysg Cymraeg.<br><br>Cytunwyd y bydd Chris yn cysylltu mewn gyda'r Cynghorydd Andrew er mwyn derbyn adborth lleol.<br><br>Mae'r tîm hefyd wedi dechrau ar Bolisi Dilyniant Iaith Gymraeg, ar y cyd â Chyngor Ceredigion fel bod yna broses glir mewn lle o ran y llwybr addysg.<br><br>Esboniodd y Cyng. JL fod yn batrwm yn ardal Ysgol Gruffydd Jones hefyd, lle mae plant yn gadael cymunedau gwledig er mwyn osgoi addysg cyfrwng Cymraeg. Cafwyd ymholiad o ran yr 11 o ysgolion sydd o dal sylw o ran y continwwm ieithyddol. Esboniwyd fod yna drawstoriad daearyddol gyda rhai ysgolion sydd yn drosiannol ac eraill yn ysgolion lle mae dwy ffrwd. Mae ystod o niferoedd disgyblion, e.e mae'r ysgol leiaf a tua 60 o ddisgyblion ac eraill gyda tua 300 o blant. Y categori ieithyddol a sefyllfa gyfredol yr ysgol yw'r ffocws, ynghyd ag effaith posib yr ysgolion o ran ysgolion eraill a dilyniant ieithyddol.<br><br>Nodwyd y byddai croeso i Cyng. JL i gysylltu gyda Chris o ran cefnogaeth i deuluoedd ac o ran dysgu'r Gymraeg.<br><br>I gloi'r drafodaeth, nodwyd fod tipyn o'r sgwrs yn dod i lawr i arweiniad Penaethiaid ein hysgolion lleol a phwysleisio'r faith fod yna rôl gan bob ysgol i chwarae yn hyn. Mae elfennau cydymffurfiaeth o ran Deddf y Gymraeg ac Addysg ac mae'r Adran Addysg a Hamdden yn awyddus i sicrhau fod yna gefnogaeth mewn lle i ysgolion i ddeall hyn.<br><br>Nododd GA y bydd Eisteddfod y Garreg Las ym mis Awst 2026 yn ardal Aberteifi ond mae yna ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhan y dalgylch. Mae ysgol Uwchradd Emlyn a | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dyffryn Taf yn rhan o'r gwaith datblygu a bydd cyfle i sicrhau gwaddol i'r ysgolion hynny o ran y Gymraeg. | |
| 4. | **Cofnodion cyfarfod 11 Medi 2025**<br><br>Cytunwyd fod y cofnod yn rhai cywir. | |
| 5. | **Unrhyw fater arall**<br><br>Esboniodd y Cynghorydd PHG ei fod bellach yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc, lle arferai adroddiadau o ran y Gymraeg ddod. Mae'r Gymraeg fel pwnc bellach yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Tai, Adfywio a'r Gymraeg erbyn hyn a gofynnodd y Cynghorydd Peter a fyddai modd ail-ystyried hyn, er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried law yn llaw a'r maes Addysg. Nodwyd fod hyn wedi ei alinio yn unol â'r phortffolio yr Aelodau Cabinet.<br><br>Cytunwyd y bydda'r Cynghorydd Carys a'r Cynghorydd Peter yn cydweithio er mwyn gofyn y cwestiwn.<br><br>Esboniodd y Cynghorydd PHG ei fod wedi derbyn rhaglen Hydref / Gaeaf Theatrau Sir Gar, ac mae 5 perfformiad yn yng allan o'r 52 yn rhai cyfrwng Cymraeg. Doedd dim darpariaeth cyfrwng Cymraeg o gwbl yn Theatr y Glowyr, Rhydaman.<br><br>O ran rhaglen y Gwanwyn, mae 60 o berfformiadau – gydag un yn Gymraeg a tri yn ddwyieithog. Cafwyd ymateb gan Ben Lloyd, Rheolwr y Theatrau i'r Cyng. Peter ac esboniwyd fod yna gonsyrn o fewn yr uned am y ddarpariaeth.<br><br>Cytunwyd i wahodd (Ian Jones, Jane Davies a Ben Lloyd) i gyfarfod nesaf y Panel er mwyn esbonio y broses o drefnu'r rhaglen a denu cynyrchiadau cyfrwng Cymraeg i'r arlwy. Tanlinellwyd pwysigrwydd y ddarpariaeth o ran Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Deilliant 5 yn ogystal. | Tîm Polisi |
| 6. | **Dyddiadau'r cyfarfod nesaf:**<br><br>• *12 Mawrth 2026 am 2 yn y prynhawn.*<br>• *Cytunwyd i wahodd cynrychiolaeth o'r Is-adran Hamdden i drafod Theatrau.*<br>• *Cytunwyd i gael eitem o ran penodi Is-gadeirydd i'r Panel.* | |